



TAG Uwch

1375/51

CYMRAEG – IAITH GYNTAF CY5
Y CHWEDLAU, YR HENGERDD A'R CYWYDDAU
(Papur Ysgrifenedig)

A.M. DYDD GWENER, 15 Mehefin 2012

1½ awr

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylid defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **45 munud** yr un ar y **ddau** gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio copïau o'r testunau gosod na geiriaduron yn yr arholiad hwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Y mae pob cwestiwn yn gyfwerth o ran marciau.

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac y bydd felly'n profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

ADRAN A

1. Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

Darllenwch y darn canlynol ac yna atebwch y cwestiynau.

- (a) Troschwch i Gymraeg llenyddol diweddar **linellau 1-12**: ‘Ac yna y dechrewis y Gwydyl... Ac yna y peris Bendigeiduran llad y benn.’ [20]
- (b) Manylwch ar y **themâu** a geir yn y **darn cyfan isod (linellau 1-25)**. [20]

Ac yna y dechrewis y Gwydyl kynneu tan dan y peir dadeni. Ac yna y byrywyt y kalaned yn y peir, nny uei yn llawn, ac y kyudyn tranoeth y bore yn wyr ymlad kystal a chynt, eithyr na ellynt dywedut. Ac yna pan welas Efnissyen y kalaned heb enni yn un lle o wyr Ynys y Kedyrn, y dywot yn y uedwl, ‘Oy a Duw,’ heb ef, ‘guae ui uy mot yn achaws y’r wydwic honn o wyr Ynys y Kedyrn; a meuyl ymi,’ heb ef, ‘ony cheissaf i waret rac hynn.’

5

Ac ymedyryaw ymlith kalaned y Gwydyl, a dyuot deu Wydel uonllwm idaw a’y uwrw yn y peir yn rith Gwydel. Emystynnu idaw ynteu yn y peir, nny dyrr y peir yn pedwar dryll, ac nny dyrr y galon ynteu. Ac o hynny y bu y meint goruot a uu y wyr Ynys y Kedyrn. Ny bu oruot o hynny eithyr diang seithwyr, a brathu Bendigeiduran yn y troet a guenwynwaew.

Sef seithwyr a dienghis, Pryderi, Manawydan, Gliuieu eil Taran, Talyessin, ac Ynawc, Grudyeu uab Muryel, Heilyn uab Gwyn Hen.

10

Ac yna y peris Bendigeiduran llad y benn.

‘A chymerwch chwi y penn,’ heb ef, ‘a dygwch hyt y Gwynuryn yn Llundain, a chledwch a’y wyneb ar Freinc ef. A chwi a uydwch ar y ford yn hir; yn Hardlech y bydwch seith mlyned ar ginyaw, ac Adar Riannon yn canu ywch. A’r penn a uyd kystal gennwch y gedymdeithas ac y bu oreu gennwch, ban uu arnaf i eiryoet. Ac y Guales ym Penuro y bydwch pedwarugeint mlyned. Ac nny agoroch y drws parth ac Aber Henuelen, y tu ar Gernyw, y gellwch uot yno a’r penn yn dilwgyr genhwch. Ac o’r pan agoroch y drws hwnnw, ny ellwch uot yno. Kyrchwch Lundein y gladu y penn. A chyrchwch chwi racoch drwod.’

Ac yna y llas y benn ef, ac y kychwynassant a’r penn gantu drwod, y seithwyr hynn, a Branwen yn wythuet. Ac y Aber Alau yn Talebolyon y doethant y’r tir. Ac yna eisted a wnaethant, a gorfowys. Edrych oheni hitheu ar Iwerdon, ac ar Ynys y Kedyrn, a welei ohonunt.

‘Oy a uab Duw,’ heb hi, ‘guae ui o’ m ganedigaeth. Da a dwy ynys a diffeithwyt o’ m achaws i.’

A doddi ucheneit uawr, a thorri y chalon ar hynny. A gwneuthur bed petruel idi, a’e chladu yno yglan Alaw.

25

ADRAN B

2. Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Darllenwch y dyfyniad a ganlyn ac yna atebwch y cwestiynau.

- (a) Rhowch **gefndir y gerdd hon a chefndir y bardd** os yw'n hysbys. [20]
- (b) Dadansoddwch **arddull** y bardd yn y **dyfyniad** hwn. [20]

Yr wylan deg ar lanw, dioer,
 Unlliw ag eiry neu wenlloer,
 Dilwch yw dy degwch di,
 Darn fal haul, dyrnfol heli,
 Ysgafn ar don eigion wyd,
 Esgudfalch edn bysgodfwyd.
 Yngo'r aud wrth yr angor
 Lawlaw â mi, lili môr.
 Llythr unwaith lle'th ariannwyd,
 Lleian ym mrig llanw môr wyd.

Cyweirglod bun, cai'r glod bell,
 Cyrch ystum caer a chastell.
 Edrych a welych, wylan,
 Eigr o liw ar y gaer lân.
 Dywaid fy ngeiriau dyun,
 Dewised fi, dos hyd fun.
 Byddai'i hun, beiddia'i hannerch,
 Bydd fedrus wrth fwythus ferch
 Er budd; dywaid na byddaf,
 Fwynwas coeth, fyw onis caf.
 Ei charu'r wyf, gwbl nwyf nawdd,
 Och wŷr, erioed ni charawdd
 Na Merddin wenithfin iach,
 Na Thaliesin ei thlysach.



TAG Uwch

1375/51-A

CYMRAEG: IAITH GYNTAF CY5

WELSH: FIRST LANGUAGE CY5

Y CHWEDLAU, YR HENGERDD A'R CYWYDDAU

MEDIEVAL PROSE, EARLY AND MEDIEVAL POETRY

(Papur Ysgrifenedig)

(Written Paper)

A.M. DYDD GWENER, 15 Mehefin 2012

A.M. FRIDAY, 15 June 2012

1½ awr / 1½ hours

**Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau
For the attention of the Examinations Officer**

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur hwn, bydd angen llyfryn ateb 12 tudalen arnoch chi.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb a ddarperir ar wahân.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Dylid defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio **45 munud** yr un ar y **ddau** gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio copiâu o'r testunau na geiriaduron yn yr arholiad hwn.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Y mae pob cwestiwn yn gyferth o ran marciau.

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Atgoffir chi mai papur synoptig yw hwn ac y bydd felly'n profi gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau a ddatblygwyd wrth astudio'r pwnc.

ADDITIONAL MATERIALS

In addition to this paper, you will need a 12 page answer booklet.

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

Use black ink or black ball-point pen.

*Answer **both** questions.*

Write your answers in the separate answer booklet provided.

Where it is necessary to express your opinions, you should give reasons for them and refer to the opinions of others when appropriate.

You should use literary criticism terms and quotes.

You are reminded that assessment will take into account the quality of written language in your answers.

*You should allow **45 minutes** each on **both** questions.*

Dictionaries and set texts are not permitted in this examination.

INFORMATION FOR CANDIDATES

The marks allocated for each question are equal.

The number of marks available are shown in brackets at the end of each question or part-question.

You are reminded that this paper is synoptic and will therefore test the information, understanding, and skills you have developed by studying the subject.